

# Yn dilyn 'Brexit'

Yr hawl i weithio fel athrawon yn y  
DU a'r UE





Mewn Refferendwm ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd pobl y DU o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r llyfryn hwn yn esbonio goblygiadau'r bleidlais hon i athrawon o'r DU sy'n byw/gweithio yn yr UE ac i athrawon o wledydd eraill yr UE sy'n byw/gweithio yn y DU.
































Mae'r DU yn dal i fod yn rhan o Ewrop ac, yn dibynnu ar benderfyniadau a thrafodaethau pellach, mae'n dal i fod yn aelod o'r UE. Fodd bynnag, yn dilyn pleidlais y Refferendwm a'r penderfyniad i gychwyn gweithredu Erthygl 50, mae Llywodraeth y DU wrthi'n cymryd camau gweithredu i ddod ag aelodaeth y DU o'r UE i ben. Bydd hyn yn creu goblygiadau i athrawon ymhob rhan ac o bob rhan o'r DU.



## Yr hawl i weithio

Hyd nes bydd y broses o adael yr UE wedi'i chwblhau, bydd athrawon sy'n ddinasyddion yr UE (sy'n cynnwys athrawon o'r DU) yn parhau i fod â'r hawl i fyw neu weithio mewn unrhyw wlad sy'n aelod o'r UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Mae'r UE/AEE yn cynnwys:

- |  |  |  |
|--|--|--|
|  Awstria            |  Gwlad Groeg          |  Rwmania  |
|  Gwlad Belg         |  Hwngari              |  Slofacia   |
|  Bwlgaria           |  Gweriniaeth Iwerddon |  Slofenia   |
|  Croatia            |  Yr Eidal             |  Sbaen  |
|  Cyprus             |  Latfia               |  Sweden   |
|  Y Weriniaeth Tsiec |  Lithwania            |  Y Deyrnas Unedig                                     |
|  Denmarc            |  Lwcsembwrg           |  Norwy <small>(nid yw'n aelod o'r UE)</small>         |
|  Estonia            |  Malta                |  Gwlad yr Iâ <small>(nid yw'n aelod o'r UE)</small>   |
|  Y Ffindir          |  Yr Iseldiroedd       |  Liechtenstein <small>(nid yw'n aelod o'r UE)</small> |
|  Ffrainc            |  Gwlad Pwyl           |  |
|  Yr Almaen          |  Portiwgal            |  |

Nid yw canlyniad Refferendwm y DU ar aelodaeth o'r UE yn effeithio ar athrawon sy'n gweithio yn y DU ac sy'n dod o wledydd nad ydynt yn aelodau o'r UE/AEE.



## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Erthygl 50 yw'r teclyn cyfreithiol o fewn Cytuniad Lisbon 2007 sy'n galluogi i unrhyw aelod-wladwriaeth o'r UE ddod â'i aelodaeth o'r UE a'i sefydliadau i ben, a hynny'n unochrog. Mae Erthygl 50 yn amlinellu'r drefn ar gyfer gadael yr UE.

Ar ran y Deyrnas Unedig, cychwynnodd y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Theresa May, weithredu Erthygl 50 ar 29 Mawrth 2017. Mae Erthygl 50 yn gofyn bod y DU yn gadael yr UE o fewn dwy flynedd, ar/erbyn 29 Mawrth 2019.

O ganlyniad i gau trafodaethau Brexit gellid cael cytundeb a gymeradwyir gan fwyafrif cymwysedig o aelod-wladwriaethau'r UE ond gallai Senedd Ewrop roi feto arno hefyd.

Does dim newid i hawliau a statws dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU neu i hawliau dinasyddion y DU sy'n byw mewn rhannau eraill o'r UE tra bo'r DU yn parhau yn yr UE.





10 DOWNING STREET  
LONDON SW1A 2AA

29 March 2017

THE PRIME MINISTER


*Dear President Tusk*

On 23 June last year, the people of the United Kingdom voted to leave the European Union. As I have said before, that decision was no rejection of the values we share as fellow Europeans. Nor was it an attempt to do the United Kingdom wrong or any of the remaining member states. On the contrary, the referendum was a vote to remain, as we see it, our self-determination. We are leaving the European Union, but we are not leaving Europe – and we want to remain committed partners and allies to our fellow Europeans.

Mewn llythyr gan y Prif Weinidog ar 29 Mawrth 2017 at Lywydd y Cyngor Ewropeaidd, a gychwynnodd weithrediad Erthygl 50, nodwyd hyn yn glir:

## Cychwyn gweithredu Brexit

*'Ar 23 Mehefin y llynedd, pleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Fel y dywedais o'r blaen, nid oedd y penderfyniad yn wrthodiad o'r gwerthoedd a rannwn fel cyd-Ewropeaid. Nid oedd chwaith yn gais i wneud niwed i'r Undeb Ewropeaidd nag unrhyw rai o'r aelod-wladwriaethau eraill sydd ynddi. I'r gwrthwyneb, mae'r Deyrnas Unedig eisiau i'r Undeb Ewropeaidd lwyddo a ffynnu. Yr hyn ydoedd y referendwm oedd pleidlais i adfer ein hunanbenderfyniad cenedlaethol, fel y gwelwn ni hwnnw. Rydym yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ond nid ydym yn gadael Ewrop – ac rydym eisiau parhau'n bartneriaid ymroddedig ac yn gynghreiriaid gyda'n cyfeillion ar draws cyfandir.'*



Yn llythyr y Prif Weinidog a gychwynnodd weithrediad Erthygl 50, nododd y Llywodraeth nifer o flaenoriaethau negodi ar gyfer y broses o drafod Brexit:

- i. *Dylem ymgysylltu gyda'n gilydd yn adeiladol ac yn barchus*, gydag ysbryd o gydweithrediad diffuant...rydym yn deall ac yn parchu eich barn fod 'pedwar rhyddid' y Farchnad Sengl yn anwahanadwy ac na ddylid gwneud unrhyw 'ddewis a dethol'...
- ii. *Dylem bob amser roi ein dinasyddion yn gyntaf...Er enghraifft*, mae nifer o ddinasyddion aelod-wladwriaethau eraill yr UE yn byw yn y Deyrnas Unedig, ac mae nifer o ddinasyddion y DU sy'n byw mewn rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd, a dylem amcanu i ddod i gytundeb cynnar ynghylch eu hawliau.
- iii. *Dylem weithio tuag at sicrhau cytundeb cynhwysfawr...*gan ystyried cydweithrediad economaidd a chydweithrediad ym maes diogelwch gwladol...
- iv. *Dylem weithio gyda'n gilydd i leihau'r amhariad a rhoi cymaint o sicrwydd ag sy'n bosibl...*Er mwyn osgoi unrhyw achosion o 'blymio dros yr ymyl' wrth i ni symud o'n perthynas gyfredol i'n partneriaeth yn y dyfodol...

- v. *...mae'n rhaid i ni dalu sylw i berthynas unigryw'r DU gyda Gweriniaeth Iwerddon a phwysigrwydd y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon...* Rydym eisiau osgoi dychwelyd at ffin 'galed' rhwng ein dwy wlad, er mwyn gallu cynnal yr Ardal Deithio Gyffredin rhyngom...Mae gennym hefyd gyfrifoldeb pwysig i sicrhau na wneir unrhyw beth i beryglu'r broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon, a'n bod yn parhau i gynnal Cytundeb Belfast.
- vi. *Dylem...roi blaenoriaeth i'r heriau mwyaf...rydym yn...cynnig Cytundeb Masnach Rydd sy'n uchelgeisiol ac yn eofn* rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd...
- vii. *Dylem barhau i weithio ynghyd i hyrwyddo a diogelu'r gwerthoedd Ewropeaidd a rannwn.* Mae ar y byd angen gwerthoedd rhyddfrydol a democrataidd Ewrop, efallai'n fwy yn awr nag erioed o'r blaen. Rydym eisiau chwarae ein rhan ninnau i sicrhau bod Ewrop yn parhau'n gryf ac yn ffyniannus ac yn gallu arwain yn y byd, gan hyrwyddo ei gwerthoedd a'i hamddiffyn ei hun rhag bygythiadau i'w diogelwch.



## Trafodaethau Brexit

Er gwaethaf yr Etholiad Cyffredinol 'dirybudd' a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017, cychwynnodd trafodaethau Brexit, fel y cynlluniwyd, ar 19 Mehefin 2017. Mewn araith ar 17 Ionawr 2017, pennodd y Prif Weinidog dair egwyddor ar gyfer adeiladu Prydain decach yn dilyn Brexit:

- Rheoli mewnfudo

*'...byddwn yn sicrhau rheolaeth ar nifer y bobl sy'n dod o'r UE i Brydain.'*

- Hawliau i ddinasyddion yr UE ym Mhrydain, a hawliau i ddinasyddion Prydain yn yr UE

*'Gynted ag y gallwn, rydym eisiau gwarantu hawliau'r dinasyddion o'r UE sy'n byw ym Mhrydain yn barod, a hawliau'r dinasyddion o Brydain sydd mewn aelod-wladwriaethau eraill.'*

- Diogelu hawliau gweithwyr

*'...byddwn yn sicrhau bod hawliau gweithwyr yn cael eu diogelu a'u cynnal yn llawn ... Yn wir, o dan fy arweiniad i, nid yn unig y bydd y Llywodraeth yn diogelu hawliau'r gweithwyr sydd i'w cael mewn deddfwriaeth Ewropeaidd, byddwn yn adeiladu arnynt...'*



## Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Cafodd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ei gynnwys yn Araith y Frenhines ym mis Mehefin 2017 a'i gyflwyno i Senedd y DU ar 13 Gorffennaf. Bydd y Bil yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac yn gwneud darpariaethau eraill mewn perthynas ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Llywodraeth yn amcangyfrif bod oddeutu 12,000 o reoliadau'r UE mewn grym ar hyn o bryd yn y DU, yn ogystal ag oddeutu 8,000 o offerynnau statudol y DU i weithredu deddfwriaeth yr UE, a 186 o Ddeddfau Senedd y DU sy'n cynnwys rhywfaint o ddeddfwriaeth yr UE. Brasamcanir bod y corff cyfan o gyfraith Ewrop ('Acquis Communautaire' yr UE), sy'n rhwymo aelod-wladwriaethau'r UE ynghyd, yn cynnwys 80,000 o eitemau, sy'n ymwneud â phopeth o hawliau gweithwyr i faterion masnach a'r amgylchedd.

Mae rhai o ddeddfau'r UE mewn meysydd sydd dan reolaeth y gweinyddiaethau datganoledig, ac maent yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn â sut y bydd proses y DU o adael yr UE yn cael ei rheoli heb danseilio safle'r llywodraethau a'r gweinyddiaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gibraltar.

Mae deddfwriaeth newydd yr UE yn cael ei chreu drwy'r amser a bydd yn parhau'n gymwys i'r DU nes y bydd y DU yn ymadael.





## Dinasyddion yr UE/DU sy'n byw yn y DU/UE

Mae oddeutu 3.2 miliwn o ddinasyddion yr UE yn byw yn y DU ar hyn o bryd, ac mae oddeutu 1.2 miliwn o gyn-drigolion y DU yn byw yng ngwledydd eraill yr UE.

Mae taflen ffeithiau am hawliau dinasyddion yr UE yn y DU – *Rights of EU Citizens in the UK* – (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) – a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017, yn esbonio beth yw bwriadau'r Llywodraeth mewn perthynas â dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU:

*'Hoffem sicrhau bod dinasyddion yr UE yn parhau nid yn unig i allu byw yma fel y maent yn awr ond hefyd yn parhau i fwynhau hawliau pwysig eraill megis gofal iechyd, addysg, budd-daliadau a phensiynau.*

*'Bydd yr hawliau hyn yn gydradd gymwys i holl ddinasyddion yr UE ac ni fydd yn trin dinasyddion un aelod-wladwriaeth yn wahanol i ddinasyddion un arall. Ond mae'n gwneud hyn heb ragfarn i'n perthynas arbennig gydag Iwerddon.*

*'Bydd yr hawliau hyn wedi'u cynnwys yng nghyfraith y DU, nid cyfraith yr UE, a fydd yn orfodadwy drwy system farnwrol y DU.*

*'Ni fydd unrhyw ddinasydd yr UE sydd yma'n gyfreithlon cyn y dyddiad torri ymaith (nad yw wedi'i gytuno eto) yn gorfod gadael o ganlyniad i'n hymadawiad â'r UE. Ni fydd unrhyw 'blymio dros yr ymyl' i fusnesau neu unigolion ac rydym eisiau cadw teuluoedd sy'n byw'n gyfreithlon yn y DU gyda'i gilydd'.*



Er bod rhywfaint o ansicrwydd yn parhau, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau nad oes angen i ddinasyddion yr UE yn y DU wneud unrhyw beth ar hyn o bryd. Ond, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gofyn i holl ddinasyddion yr UE wneud cais i'r Swyddfa Gartref i gael dogfen breswyllo sy'n cadarnhau eu 'statws preswlydd sefydlog'. Disgwylir i system gais ar-lein i'r perwyl hwn gael ei chyhoeddi yn 2018.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau na fydd hyn yn effeithio ar hawliau dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon sy'n preswyllo yn y DU ac na fydd raid iddynt wneud cais am statws preswlydd sefydlog er mwyn diogelu eu hiawnderau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am breswylad yn y DU i ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref, neu ar y wefan:

**[www.gov.uk/eea-registration-certificate](https://www.gov.uk/eea-registration-certificate)**



## Yr hawl i weithio yn yr UE

Mae hawl pobl i symud yn rhydd yn cynnwys yr hawl i weithio mewn aelod-wladwriaeth arall o'r UE.

Mae Cyfarwydddebau'r UE ar y rhyddid sydd gan bobl i symud yn cyflwyno hawliau arbennig i unigolion ac aelodau eu teuluoedd (gan gynnwys gwŷr/gwagedd, partneriaid cofrestredig, plant dibynnol o dan 21 oed, rhieni dibynnol), pa wlad bynnag o'r UE y maent yn ddinasyddion ynddi.

O ran partneriaid cofrestredig, rhoddir yr hawl i symud yn rhydd os yw'r wlad lle mae'r athro/athrawes yn dymuno gweithio'n ystyried bod partneriaethau cofrestredig yn gyfatebol â phriodas. Yn y DU, ystyrir partneriaethau sifil cofrestredig yn gyfatebol â phriodas.





## Hawliau cyflogaeth

Fel dinasyddion yr UE sy'n gweithio yng ngwledydd eraill yr UE, mae gan athrawon hefyd yr hawl i fyw yn y wlad honno heb orfod cael trwydded breswyllo.

Mae athrawon o wledydd eraill yr UE sy'n gweithio yn y DU yn atebol i'r un amodau gwaith â dinasyddion y DU, gan gynnwys yr amodau hynny sy'n ymwneud â'u cyflogau, oriau gwaith, hawliau absenoldeb mamolaeth ac iechyd a diogelwch yn y gwaith.





## Hawliau athrawon

Mae gan athrawon yr un hawliau ag unrhyw ddinasyddion yn y wlad lle maent yn gweithio o ran cyflog, amodau gwaith a nawdd cymdeithasol/lles.

Er mwyn gweithio mewn gwlad nad yw'n aelod o'r UE, neu i weithio yn y DU fel dinesydd gwlad y tu allan i'r UE, bydd angen i chi gael trwydded gwaith priodol.

Dylai athrawon gysylltu â llysgenhadaeth berthnasol y wlad lle maent yn dymuno gweithio i gael manylion am ofynion trwyddedau gwaith.



## **Yr hawl i gael eu trin yn gyfartal**

Mae hawl gan bob athro/athrawes gael eu cyflogi o dan yr un amodau ag athrawon sy'n ddinasyddion yn y wlad lle maent yn ceisio gweithio ac ni ellir gofyn iddynt gyflawni ag unrhyw ofynion ychwanegol.

Mae athrawon o'r DU yn rhydd i wneud cais am swyddi addysgu gwag a hysbysebhir mewn unrhyw wlad arall yn yr UE. Yn yr un modd, mae athrawon o wledydd eraill yr UE yn rhydd i wneid cais am swyddi addysgu yn y DU.



## Yr hawl i weithio fel athrawon

Efallai bod gan bob gwlad yn yr UE ofynion lleol neu genedlaethol ynglŷn â chymwysterau neu dystysgrifau arbennig, neu ynglŷn â chofrestriad proffesiynol, fel amod o gael swydd fel athro/athrawes.

I weithio fel athro/athrawes mewn gwlad yn yr UE lle mae system rheoli broffesiynol yn bodoli, bydd angen i unigolion wneud cais am gydnabyddiaeth i'w cymwysterau addysgu yn y wlad lle maent yn dymuno gweithio. Rhaid i'r awdurdodau rheoleiddio yn y wlad honno ateb unrhyw gais o fewn pedwar mis.

Os bydd yr awdurdodau rheoleiddio yn y wlad lle mae'r unigolyn yn dymuno gweithio fel athro/athrawes yn ystyried bod hyfforddiant yr unigolyn yn sylweddol wahanol o ran ei hyd neu ei gynnwys i'r hyfforddiant a roddir yn y wlad honno, gellir gofyn i'r athro/athrawes gael rhagor o hyfforddiant neu brofiad proffesiynol.





## Cofrestriad athrawon

I weithio fel athro/athrawes yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, rhaid i athrawon gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru, neu gyda Chynghorau Addysgu Cyffredinol yr Alban neu Ogledd Iwerddon, fel y bo'n berthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am gyrff rheoleiddio'r DU, ewch i:

Yr Alban: **[www.gtcs.org.uk](http://www.gtcs.org.uk)**

Cymru: **[www.ewc.wales](http://www.ewc.wales)**

Gogledd Iwerddon: **[www.gtcni.org.uk](http://www.gtcni.org.uk)**

Mae gwybodaeth ar gael gan y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i ddinasyddion yr UE/AEE sy'n dymuno gweithio yn Lloegr. Ewch i: **[www.gov.uk/guidance/qualified-teacher-status-qts#eea-nationals](http://www.gov.uk/guidance/qualified-teacher-status-qts#eea-nationals)**.





## Yr hawl i dderbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol

Trwy weithio mewn aelod-wladwriaeth arall a thrwy drosglwyddo preswylfa i'r wlad honno, bydd yr athro/athrawes yn dod yn 'breswlydd at ddibenion treth' yn y wlad lle maent yn gweithio. Bydd gofyn i athrawon o wledydd eraill yr UE sy'n gweithio yn y DU dalu'r un lefel o drethi a chyfraniadau nawdd cymdeithasol (h.y. Yswiriant Gwladol) â dinasyddion y wlad honno. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i athrawon o'r DU sy'n gweithio yng ngwledydd eraill yr UE.

Bydd athrawon o wledydd eraill yr UE sy'n gweithio yn y DU yn cael eu hyswirio yn y DU at ddibenion nawdd cymdeithasol. Mae hawl i unigolion, a'u teuluoedd o dan amgylchiadau arbennig, dderbyn yr un budd-daliadau nawdd cymdeithasol â dinasyddion y DU.

Mae'r hawliau hyn yn cynnwys derbyn budd-daliadau oherwydd salwch, mamolaeth, anabled, henaint, budd-daliadau i oroeswyr, budd-daliadau sy'n daladwy oherwydd damwain yn y gwaith, afiechyd galwedigaethol, marwolaeth a diweithdra, yn ogystal â lwfansau teulu. Ni allwch gael eich eithrio rhag derbyn budd-daliadau ar sail cenedligrwydd, am resymau preswylfa, neu ar unrhyw sail wahaniaethol arall.



## Yr hawl i fyw'n ddiogel ac heb ofn

Mae gan bawb yr hawl i weithio ac i fyw'n ddiogel, ac heb ofn. Yn anffodus, ers canlyniad Refferendwm y DU i adael yr UE, bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau am 'droseddau casineb' sydd wedi'u targedu yn erbyn unigolion a theuluoedd oherwydd eu cenedligrwydd, eu cefndiroedd ethnig neu eu credoau crefyddol.

Mae NASUWT yn condemnio ymddygiad o'r fath ac mae'n gweithio'n galed yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i helpu i sicrhau'r amodau lle gall athrawon, disgyblion, teuluoedd a chymunedau fyw, gweithio ac astudio'n ddiogel ynddynt heb ofni trais, brawychu a cham-drin.

Mae NASUWT yn flaenllaw yn yr ymdrechion cenedlaethol ac ymdrechion yr UE i gefnogi gwaith ysgolion i hybu cydraddoldeb ac i ddathlu amrywiaeth ethnig, diwylliannol a chrefyddol ein cymunedau. Mae NASUWT yn un o aelodau sylfaenol Pwyllgor Undebau Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI) sy'n cynrychioli 32 miliwn o athrawon ac addysgwyr mewn mwy na 170 o wledydd.



## Yr hawl i gael eu trin gydag urddas a pharch

Lle bynnag y bydd athrawon yn y DU yn wynebu bwlio ar sail hiliol a chrefyddol neu fathau eraill o fwlio, casineb neu gulni ar sail rhagfarn, dylent gysylltu â NASUWT ar unwaith i gael cyngor a chefnogaeth. Pan fydd digwyddiad yn codi y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol, dylai aelodau gysylltu â NASUWT i gael cymorth a chefnogaeth, ond dylent roi gwybod i'r heddlu am y mater yn y lle cyntaf.

Mae NASUWT yn credu na ddylai unrhyw unigolyn fyw mewn ofn oherwydd pwy ydynt ac o ble y maent yn hanu. Dylai unrhyw athrawon sy'n wynebu, neu sy'n dystion i, achosion o fwlio, aflonyddu, erlid, cam-drin corfforol neu feddyliol ar sail rhagfarn, neu fathau eraill o drosedd casineb, wneud nodyn o'r digwyddiad (gan gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad) ac enwau unrhyw dystion, a rhoi gwybod am y mater ar unwaith.

Mewn achosion o gam-drin neu aflonyddu drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ar blatfformau ar-lein eraill, dylid tynnu sgrinlun ar unwaith ar y cyfrifiadur, llechen neu'r ffôn symudol, o'r pethau sy'n peri tramgwydd cyn rhoi gwybod am y digwyddiad.





## Blaenoriaethau a phryderon NASUWT

Mae NASUWT yn pryderu bod cynnydd arwyddocaol wedi digwydd yn nifer dinasyddion yr UE sydd wedi gadael y DU yn dilyn pleidlais y Refferendwm ym mis Mehefin 2016, gan ychwanegu at y pryderon i lawer o gyflogwyr.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi canfod bod oddeutu 117,000 o ddinasyddion yr UE wedi gadael y DU yn 2016, sef cynnydd o 31,000 ar ffigur y flwyddyn flaenorol. Roedd y mwyafrif o'r rheiny sydd wedi gadael yn ddinasyddion yr UE8 yn bennaf – sef grŵp sy'n cynnwys dinasyddion Gwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec, y gwledydd Baltig a Hwngari.

Mae'r adborth a dderbynnir gan NASUWT yn dangos bod llawer o'r athrawon o wledydd eraill yr UE yn pryderu fwy a mwy am yr ansicrwydd ynglŷn â Brexit, ac mae eraill yn teimlo nad oes croeso iddynt fyw yn y DU. Mae nifer yr adroddiadau am droseddau casineb wedi cynyddu'n sylweddol ers y Refferendwm.

NASUWT oedd yr undeb cyntaf i ddarparu gwybodaeth a chyngor i athrawon am oblygiadau a chanlyniadau Brexit. Ers 23 Mehefin 2016, mae'r Undeb wedi gwrando'n ofalus ar bryderon a godwyd gan athrawon am Brexit, er mwyn sicrhau bod aelodau'n cael eu cefnogi ac yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch y dyfodol.



Yng Nghynhadledd Genedlaethol yr Undeb ym mis Ebrill 2017, cadarnhaodd NASUWT ei flaenoriaeth yn ei bolisi i ymgyrchu i ddiogelu hawliau gweithwyr yng nghyd-destun ansicrwydd parhaus ynglŷn â Brexit.

Mae NASUWT yn hynod feirniadol o fethiant y Llywodraeth i:

- ddiogelu hawliau athrawon o wledydd eraill yr UE sy'n gweithio yn y DU, a hawliau athrawon o'r DU sy'n gweithio yng ngwledydd eraill yr UE;
- ymrwmo i warantu y bydd hawliau gweithwyr, gan gynnwys hawliau undebau llafur, yn cael eu diogelu'n llawn o fewn unrhyw fargeinion masnach a drefnir gyda'r DU; ac i
- ddiogelu buddsoddiad mewn addysg o safon fyd-eang ac mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill ledled y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gibraltar.

**Mae NASUWT yn galw:**

- ar y llywodraethau a'r gweinyddiaethau yn y Deyrnas Unedig i roi terfyn ar y polisiâu diffygiol a gwastraffus o ddadroleiddio a'r diwygiadau er budd y farchnad yn unig, i sicrhau bod arian cyhoeddus ar gyfer addysg yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol ac yn briodol er budd y cyhoedd, ac i ddiogelu swyddi a safonau byw;

- am fframwaith ôl-Brexit ar gyfer hawliau gweithwyr a fydd yn gorfod cynnwys yr hawl am ddiogelwch cyflogaeth, ynghyd â hawl i gyflogau, pensiynau ac amodau gwaith gweddus i'r holl weithwyr; ac
- am drefnu ymgyrch sy'n cynnwys aelodau ledled y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gibraltar, i ddatblygu buddiannau cronus yr holl athrawon ac i atal ras i'r gwaelod o ganlyniad i ddatganoli ar lefel ranbarthol a chenedlaethol o ganlyniad i Brexit.

**Mae NASUWT yn gweithio gydag amrediad o gyrff, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i:**

- (a) amddiffyn hawliau athrawon;
- (b) ddiogelu aelodau rhag ymosodiadau ar eu statws proffesiynol a'u telerau ac amodau gwaith, drwy bob dull priodol posibl, yn cynnwys gweithredu diwydiannol;
- (c) sicrhau y bydd y trafodaethau gyda'r UE yn rhoi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau i addysg; ac hefyd i
- (d) sicrhau y bydd y cytundebau masnach yn y dyfodol yn diogelu hawliau gweithwyr ac yn darparu cyfiawnder cymdeithasol ac economaidd i bawb.




## Yr hawl i ymuno â NASUWT

Bod yn aelod o NASUWT – Undeb yr Athrawon – yw'r ffordd orau o ddiogelu eich swydd, eich cyflog, eich statws a'ch amodau gwaith fel athro/athrawes ac arweinydd ysgol/coleg.

Trwy fod yn aelod o'r Undeb, gall bob aelod dderbyn cefnogaeth yn y gwaith, gwybodaeth a chynghor, yn ogystal â llais yn eu gweithle, gyda'u cyflogwyr a gyda'r llywodraeth.

Pa broblemau bynnag sy'n eich wynebu, ymuno â NASUWT, undeb athrawon mwyaf y DU, yw'r ffordd orau o sicrhau bod eich hawliau yn y gwaith wedi'u diogelu ac yn cael eu gwella.

Gall athrawon o wledydd eraill yr UE sy'n gweithio yn y DU ymuno â NASUWT.



NASUWT yw undeb yr athrawon sy'n cynrychioli athrawon ledled Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gibraltar.


NASUWT yw'r undeb i bob athro ac athrawes ymhob sector o addysg, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar/meithrin, cynradd, ôl-gynradd/uwchradd ac addysg bellach.

Mae NASUWT yn cynrychioli athrawon ac arweinwyr ysgolion a cholegau mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth, ysgolion academi, ysgolion rhydd, ysgolion annibynnol, colegau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach.

Dylai aelodau NASUWT sy'n dymuno gweithio mewn gwledydd y tu allan i'r DU gysylltu â'r Undeb i ofyn am gyngor ynglŷn â'u haelodaeth.

Gall NASUWT hefyd helpu gyda gwybodaeth a chyngor am oblygiadau cymryd egwyl o'r gwasanaeth yn y DU o ganlyniad i weithio dramor, gan gynnwys y goblygiadau i gyflogau, pensiynau a hawliau cyflogaeth yn y dyfodol.

Lle bynnag yr ydych yn addysgu yn y DU, fel athro neu athrawes gallwch ddibynnu ar gefnogaeth gan NASUWT.



yn cynnig y canlynol i athrawon:

- cymorth a chyngor am addysgu yn y DU;
- cymorth i chwilio am swydd;
- hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn rhad ac am ddim;
- cyngor am eich hawliau yn y gwaith;
- gwybodaeth am eich cyflog a'ch amodau gwaith;
- cyngor am bensiynau;
- cyngor a chefnogaeth gyfreithiol;
- cyngor a chymorth ariannol;
- buddiannau ariannol sy'n cynnwys yswiriant, cynigion i arbed arian wrth brynu car newydd, wrth fynd ar wyliau ac wrth fynd allan i fwyta.

Mae'r aelodaeth o NASUWT yn RHAD ac am ddim am y flwyddyn gyntaf.

**NASUWT**  
The Teachers' Union

**03330 145550**

**advice@mail.nasuwt.org.uk**

**NASUWT**  
The Teachers' Union  
NORTHERN IRELAND

**028 9078 4480**

**rc-nireland@mail.nasuwt.org.uk**

**SCOTLAND**  
**NASUWT**  
The Teachers' Union

**0131 226 8480**

**rc-scotland@mail.nasuwt.org.uk**

**NASUWT CYMRU**  
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

**029 2054 6080**

**rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk**



**NASUWT**  
The Teachers' Union



**A World of Difference**

**[www.nasuwat.org.uk](http://www.nasuwat.org.uk)**